TGAU

# CBAC TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Dwyradd yn unig)

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Deunyddiau Ysgogol Print

Uned 5: Ymateb a Chreu
Addysgu o 2025
Dyfarnu o 2027



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

# BLINO AR BROTESTIO?

**Miloedd o ffermwyr yn protestio o flaen y Senedd**




**Mae arweinwyr amaeth yn galw ar Lywodraeth Cymru i wrando ar "ofid" cymunedau gwledig, wedi i brotest fawr gael ei chynnal y tu allan i'r Senedd.**

Ddydd Mercher fe wnaeth miloedd o bobl deithio i Fae Caerdydd i wrthwynebu newidiadau sylweddol i gymorthdaliadau amaeth, sy'n "anymarferol" ym marn yr undebau.

Dywedodd Heddlu De Cymru fod "tua 3,000" o bobl yn rhan o'r dorf y tu allan i'r Senedd, ond roedd awgrym fod rhai wedi cyrraedd yn hwyr.

## Protest 'heddychlon'

"ffermwyr wedi protestio a chodi eu llais hyd yma mewn modd heddychlon a chydag urddas"

"Mwy na dim byd, 'dan ni yma i ddangos i'r Llywodraeth bod 'na lais gan bobl cefn gwlad Cymru."

Richard Jones, Brynsiencyn

## Beth yw gwerth y brotest bellach?




HEB BROTESTIO A FYDDAI GYDA NI HEDDIW...

**PLEIDLAIS I FENYWOD**

CYFREITHIAU YN ERBYN LLAFUR PLANT

**SIANEL S4C**

**ARWYDDION CYMRAEG?**

## BIL TREFN CYHOEDDUS NEWYDD



**Prif Weinidog Prydain, Rishi Sunak:**

"Mae'r hawl i brotestio yn rhan sylfaenol o'n democratiaeth, ond nid yw hyn yn absoliwt! Rhaid cael cydbwysedd rhwng hawliau unigolion a hawliau'r mwyafrif sef y gweithwyr i fynd o gwmpas eu busnes o ddydd i ddydd.

"Ni allwn gael protestiadau gan leiafrif bach sy'n amharu ar fywydau'r cyhoedd cyffredin. Nid yw'n dderbyniol a byddwn yn dod ag ef i ben!

**Rydyn ni wedi gwneud hi...mae'r cwm wedi dal ei dir...**
Rwy'n ceisio meddwl beth fyddai Tadcu wedi'i wneud o hyn i gyd. Ac rwy'n cofio rhywbeth arall ddwedodd e 'Pan fydd y rhai bach yn erbyn y rhai mawr does neb yn disgwyl iddyn nhw ennill - ond myn yffach i, mae'n bwysig bod y rhai bach yn credu y gallen nhw gario'r dydd'

O'r nofel **'ARGAE HAEARN'** gan Myrddin ap Dafydd
Nofel am brotest lwyddiannus trigolion pentref Llangyndeyrn, Sir Gar yn erbyn cynlluniau Cyngor Abertawe yn 1963 i foddi eu cwm er mwyn cyflenwi dŵr i Abertawe.

**3 gwaith mwy o brotestiadau yn digwydd ar draws y byd rhwng 2006 a 2020**

Mae gan bawb yr hawl i brotestio'n heddychlon!

Trwy gydol hanes, mae protestio wedi bod yn ddull pwerus dros newid, wedi arwain at arweiniad ac i nifer, mwy o ryddid.

**Nifer o ffermwyr wedi bod yn protestio drwy yrru tractorau'n araf ar ffyrdd mewn sawl rhan o Gymru.**

Arolwg o **1700** o oedolion yn 2022, **21%** yn cefnogi protestiadau 'Just Stop Oil' a **64%** yn erbyn.
*Arolwg YouGov*





RHWYSTRO HEOLYDD A STOPIO TRAFFIG






DIFRODI ADEILADAU

YDY HYN YN MYND YN RHY BELL?



AMHARU AR DDIGWYDDIADAU

**Beth yw eich barn chi?**

**MAE PROTESTIO ERBYN HYN YN WASTRAFF AMSER YN Y WLAD HON.**

Gallwch drafod y pwyntiau hyn:

- BARN: Ydych ch'n meddwl bod pwrpas i brotestio? Oes gormod o brotestio'n digwydd nawr?
- A yw'n iawn bod protestwyr yn amharu ar fywydau pobl er mwyn gwneud eu pwynt?
- Ydych chi'n cytuno gyda bil y llywodraeth i leihau hawliau protestwyr?

EMPATHI: Ydych chi erioed wedi protestio mewn rhyw ffordd, a dros beth? Ydych chi'n cydymdeimlo gyda sefyllfa protestwyr, a pham?

LLENYDDIAETH: Beth mae'r detholiad o'r nofel 'Argae Haearn' yn dweud wrthym ni am brotestio, a sut?

# MERCHED Y MEYSYDD
## Merched mewn Chwaraeon

### BBC Cytunebau rygbi proffesiynol i ferched Cymru am y tro cyntaf

25 o ferched sy'n chwarae'n rhyngwladol yn cael cytundeb 12 mis.

Chwaraewyr yn cael ffioedd hyfforddi.

Tâl am chwarae mewn gemau.

Bydd disgwyl i chwaraewyr gwrdd â safonau penodol.

“Da iawn Undeb Rygbi Cymru am symud gyda'r oes! Mae merched rygbi Lloegr a Seland Newydd wedi bod yn broffesiynol ers blynyddoedd…ac yn llwyddiannus!”



“**Teleri Wyn Davies – chwaraewraig rygbi**
‘Pan oeddwn i'n ysgol doedd merched ddim yn chwarae rygbi, doedd ddim yn beth cŵl i wneud. Doedd o ddim yn beth ‘girly’ i wneud, doedd o ddim yn boblogaidd o gwbl.”

Tua £150k y flwyddyn

Tua £19k y flwyddyn

## TWF CWPAN RYGBI'R BYD

**2017**
twrnament yn cael slot ‘prime-time’ ar ITV



**2025**
nifer y timoedd yn codi i **16** fel rhan o ymdrech corff Rygbi'r Byd i dyfu'r gem yn genedlaethol

**Erbyn heddiw menywod a merched sy'n cynrychioli 28% o boblogaeth chwaraewyr rygbi'r byd**

**2022**
12 gwlad yn cystadlu

Ers 2021, mae Chwe Gwlad y Merched wedi cael ei chynnal ar adeg gwahanol i bencampwriaeth y dynion, sy'n golygu bod y gemau wedi bod yn cael mwy o gyhoeddusrwydd nag y bu.

### BARN RHAI RHIENI Y MAE EU MERCHED WEDI DECHRAU YMWNEUD Â RYGBI

CLWB A CYMUNED

**“Mae wedi rhoi hwb i'w hyder”**

**“Mae ganddi deulu newydd o ffrindiau”**

**“Teimlo bod hi'n aelod gwerthfawr o dîm”**

‘Nifer y merched sy'n chwarae rygbi yn un o'r 95 o ysgolion a cholegau sydd â swyddogion hybu rygbi llawn-amser wedi cynyddu o lai na 200 i bron 10,000 yn ystod y tair blynedd diwethaf’. **(gwefan Undeb Rygbi Cymru)**

| Blog Flo Williams, chwaraewraig Wasps - ‘Mae rygbi merched yn haeddu llawer mwy o gefnogaeth’ | |
|---|---|
| **Rhagfarn?** | **…a realiti?** |
| “Mae rygbi merched yn wastraff amser” | … ond mae'n ysbrydoli cenhedlaeth merched y dyfodol i gredu y gallant fod yn pwy bynnag neu beth bynnag y maent yn dymuno. |
| “Dydy rygbi menywod ddim yn chwaraeon go iawn” | …ond mae'n dysgu merched eu bod yn gallu cystadlu'n gorfforol mewn chwaraeon ac adeiladu eu cyrff, nid yn unig i ‘edrych yn bert’. |
| “Mae rygbi merched yn sbwriel o gymharu gyda'r dynion!” | …ond mae'n magu hyder merched i herio norm cymdeithasol a bod yn hyderus wrth lunio eu dyfodol eu hunain. |



**“Ni ddylai menywod fod yn siarad gydag unrhyw fath o awdurdod am gêm y dynion…galla i ddim cymryd beth maent yn dweud o ddifri”**

Llygaid du ar ôl tacl
Neu linell o eyeliner trwm
Gwefus goch o waedu
Neu biws o lipstic plwm
Mae rhain i gyd yn girly
Merchetaidd yw chwarae rygbi

**“Ti'n rhy ddel i chwarae rygbi”**
**Llio Maddocks**

### Beth yw eich barn chi?

**MAE CHWARAEON MERCHED YN HAEDDU MWY O BARCH YN Y WLAD HON.**

Gallwch drafod y pwyntiau hyn:

- BARN: Ydych chi'n cytuno bod mwy o chwaraeon merched yn mynd yn broffesiynol. Pam?
- Ydy chwaraeon merched yn cael y parch mae'n ei haeddu?
- A ddylai pob ysgol yng Nghymru sicrhau bod yr un cyfleoedd i ferched a bechgyn i chwarae pel-droed a rygbi?
- A ddylai merched fod yn sylwebu ar chwaraeon dynion?

EMPATHI: Sut mae sefyllfa'r merched yn debyg i'ch sefyllfa chi? Ydych chi'n gallu cydymdeimlo a pham?

LLENYDDIAETH: Beth mae'r gerdd gan Llio Maddocks yn dweud wrthym ni am sefyllfa merched rygbi?

# O na byddai'n haf o hyd

## Newid trefn gwyliau ysgol yng Nghymru

### CYNNIG Y LLYWODRAETH

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Nifer y dyddiau gwyliau yn aros yr un peth ond eu rhannu yn wahanol yn ystod y flwyddyn ysgol, gan gynnwys yn ystod gwyliau'r Nadolig neu hanner tymor.
- Yn cefnogi plant mwy difreintiedig ac yn hybu lles disgyblion ac athrawon.
- gallu cefnogi lles dysgwyr a staff o ran llwyth gwaith wrth a lleihau anghydraddoldebau o fewn y byd addysg.

### AI BRAF YW'R HAF HIR?

"Ni wedi arfer gyda gwyliau chwech wythnos ond rwy yn teimlo eu bod nhw'n rhy hir weithiau
Mae plant yn diflasu, rhieni'n mynd yn 'stressed' felly efallai byddai newid yn beth da"

rhiant, gwefan BBC Cymru Fyw



Angen 6 wythnos o haf i fod yn 'ffres' ar gyfer mis Medi

Dyma'r amser i joio, pan mae'r tywydd yn fwy braf!

Pryder bod disgyblion yn anghofio'u gwaith dros haf am eu bod allan o'r ysgol mor hir

Hwyliau da a llwybrau teg
Dyddiau hawdd, atgofion bras
Traethau gwyn, pelydrau aur
awyr glir ac oriau glas.



GWYLIAU BRAF
gan
Myrddin ap Dafydd

Y llywodraeth i asesu' effaith byddai gwyliau byrrach yn cael ar dwristiaeth hefyd a busnesau sy'n dibynnu arno



"Ma nifer fawr iawn o'r staff yn hoffi'r sefylfa fel y mae hi ac yn falch o gael cyfnod o wyliau haf hir er mwyn, efallai, cael ymlacio'n llwyr ac anghofio am y swydd am ychydig"

"Mae angen denu mwy o athrawon ond bydd torri ar y gwyliau haf yn arwain at lai o athrawon yn ymuno â'r proffesiwn!"

Byddai'n well petai llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar ddarparu cefnogaeth i athrawon a dysgwyr a helpu ysgolion i gyflwyno newidiadau cyn dechrau ar unrhyw newidiadau pellach i addysg.

**35%**
o athrawon yn gweld eu llwyth gwaith yn ormod
Arolwg undeb athrawon, 2023

### BETH AM EIN SIOE FRENHINOL?



**'Cost £1m' i'r Sioe Fawr o gwtogi gwyliau haf ysgolion**



- bron 250,000 yn ymweld a'r Sioe bob blwyddyn
- effaith economaidd y Sioe yn £40m gyda thua £10m o wariant gan ymwelwyr
- un o brif ddigwyddiadau cenedlaethol Cymru yn hybu diwylliant a'r iaith Gymraeg
- miloedd o blant a phobl ifanc yn colli'r cyfle i gystadlu yn y sioe mewn cystadlaethau dosbarthiadau iau
- byddai llai yn mynychu'r Sioe gan effeithio busnesau lleol sy'n elwa
- 43% o weithwyr yn y diwydiant amaeth yn siarad Cymraeg, canran tipyn yn uwch na'r cyfartaledd 19% ar draws Gymru

### Beth yw eich barn chi?

**DYLID NEWID TYMHORAU YSGOLION YNG NGHYMRU A LLEIHAU'R GWYLIAU HAF I BEDAIR WYTHNOS**

Trafodwch yr agweddau sydd ar y daflen gan fynegi eich barn arnynt.
Gallwch gyfeirio at y pwyntiau hyn:

- BARN: Ydych chi'n cytuno y byddai'n well i ysgolion petai'r llywodraeth yn newid y tymhorau ysgol a lleihau'r gwyliau haf o 6 wythnos i 4 wythnos? Pam?
- A fyddai hyn yn gwella addysg ein disgyblion yng Nghymru, a sut?
- A ddylai'r llywodraeth wrthod y cynllun oherwydd yr effaith ar y Sioe Frenhinol?

EMPATHI: Ydych chi'n gallu cydymdeimlo gyda safbwynt athrawon a rhieni, a pham?

LLENYDDIAETH: Pa ddarlun o wyliau haf sydd yn cael ei gyfleu yn y gerdd gan Myrddin ap Dafydd, a sut?